# Cofnodion Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Dlodi Tanwydd ac Effeithlonrwydd Ynni

Dydd Llun 25 Ionawr 2021, 11.30-13.00 *Noddwyd gan Mark Isherwood AS*

**Yn bresennol**

**Cadeirydd:**Mark Isherwood AS

Michael Anderson (Ofgem), Paula Burnell (Dŵr Cymru), Jessica Cook (NEA), Matt Copeland (NEA), Phil Dawson (E.ON), Ryland Doyle (Swyddfa Mike Hedges AS), Claire Durkin (NEA), Bethan Edwards (Marie Curie), Steffan Evans (Sefydliad Bevan), Brian Hart (NEA), Sam Hughes (Cyngor ar Bopeth), Samantha James (Dŵr Cymru), Adam Jones (Iechyd Cyhoeddus Cymru), Crispin Jones (Arbed am Byth), George Jones (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru), Liz Lambert (Cyngor Caerdydd), Simon Lannon (Prifysgol Caerdydd), Fflur Lawton (Smart Energy GB), Simone Lowthe-Thomas (Asiantaeth Ynni Hafren Gwy), Helen Parfitt (Swyddfa Helen Mary Jones AS), Faye Patton (Gofal ac Atgyweirio Cymru), Lee Phillips (Gwasanaeth Arian a Phensiynau), Neville Rookes (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Bethan Proctor (Cymru Tai Cymunedol), Ben Saltmarsh (Ysgrifenyddiaeth/NEA Cymru), Adam Scorer (NEA), Ben Sears (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Dora Szalkay (Swyddfa Huw Irranca-Davies AS), Gareth Thomas (NEA Cymru), Tim Thomas (Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl), Jack Wilkinson-Dix (Ymddiriedolaeth Arbed Ynni), Nigel Winnan (Cyfleustodau Cymru a'r Gorllewin)

**1. Croeso a chyflwyniadau**

Croesawodd Mark Isherwood (MI) y cyfranogwyr i'r cyfarfod, a fydd yn canolbwyntio ar gynlluniau drafft Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru rhwng nawr a 2035. Nododd Mr Isherwood fod Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig i fod i siarad â'r grŵp ond y cafwyd ymddiheuriadau ganddi yn y cyfamser.

**2. Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Cafwyd ymddiheuriadau gan Jonathan Cosson (Cymru Gynnes), Ceri Cryer (Age Cymru) a Louise Woodfine (Iechyd Cyhoeddus Cymru).

**3. Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion yn codi**

Dosbarthwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ymlaen llaw ac fe'u cymeradwywyd fel cofnod cywir (cynigydd: Sam Hughes, Cyngor ar Bopeth; eiliwr: Steffan Evans, Sefydliad Bevan). Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**4. Cynlluniau drafft i fynd i'r afael â thlodi tanwydd yng Nghymru**

**Ben Saltmarsh, Pennaeth Cymru, NEA Cymru ac Ysgrifenyddiaeth y Grŵp**

Croesawodd NEA yr ymgynghoriad a'r cyfle i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gyflwyno tri gweithdy â ffocws ar y cynlluniau drafft fis Tachwedd diwethaf.

Yn 2018 amcangyfrifwyd bod 155,000 o aelwydydd yn byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru - tua 12 y cant o'r holl aelwydydd - ofnir bod y ffigur yn llawer uwch erbyn hyn. Yn 2019-20 bu cynnydd o 45 y cant yn nifer y marwolaethau dros y gaeaf yng Nghymru, hyd at 2,000 o bobl; gellir priodoli 600 o'r rhain i gartrefi oer, a hynny cyn i COVID daro.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cyflawni tri tharged anstatudol newydd erbyn 2035:

- **Amcangyfrifir nad fydd unrhyw aelwyd yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol neu barhaus;** tlodi tanwydd difrifol yw gorfod gwario mwy nag 20 y cant o'ch incwm er mwyn cynhesu eich cartref yn ddigonol. Mae'r diffiniad o dlodi tanwydd parhaus yn defnyddio'r ffigur o 10 y cant ac mae'n berthnasol i aelwydydd y gwyddys eu bod mewn tlodi tanwydd mewn dwy o'r tair blynedd diwethaf.
- **Amcangyfrifir na fydd mwy na 5% o aelwydydd yn byw mewn Tlodi Tanwydd ar unrhyw adeg;** yn unol â'r diffiniad o 10 y cant.

- **Bydd nifer yr aelwydydd sydd “mewn perygl” o syrthio i Dlodi Tanwydd wedi mwy na haneru, yn seiliedig ar amcangyfrifon 2018;** amcangyfrifwyd bod 145,000 o aelwydydd yn 2018, a diffinnir “mewn perygl” fel y rhai sy’n gorfod gwario rhwng 8 y cant a 10 y cant o incwm y cartref i gynhesu'r cartref yn ddigonol.

Nid oes targedau na cherrig milltir interim yn y drafft y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd ac mae NEA o’r farn y dylai Llywodraeth Cymru nodi'r rhain, yn ogystal â dwyn ymlaen y targed ar gyfer dileu tlodi tanwydd difrifol i 2028, a chael gofyniad sy’n cyfateb i ofyniad Lloegr fan leiaf y bydd pob cartref sy'n dlawd o ran tanwydd yn cyrraedd cyfradd EPC ‘C’ erbyn 2030, os nad cyfradd ‘A’, ar gyfer cartrefi sydd mewn perchnogaeth gymdeithasol a'r rhai mewn tlodi tanwydd, fel y’i hargymhellir gan Grŵp Cynghori ar Ddatgarboneiddio Cartrefi yng Nghymru. Dylai'r holl dargedau, terfynol ac interim, gael eu gwneud yn statudol er mwyn iddynt fod, a pharhau i fod, yn ystyrlon.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig 10 cam ar gyfer 2021-23. Mae NEA yn croesawu'r rhain yn fras ond yn awgrymu bod angen brys a chynllun cynhwysfawr sy'n mynd y tu hwnt i 2023. O ran y Rhaglen Cartrefi Cynnes, hoffai NEA weld cefnogaeth, fel rhan o'r cymhwystra craidd, yn cael ei hehangu i gynnwys y rheini ar incwm is, nid o reidrwydd sy’n derbyn budd-daliadau prawf modd. Mae NEA am i Lywodraeth Cymru nodi sut y mae'n bwriadu cynyddu graddfa'r adnoddau sydd eu hangen i gyrraedd targedau, yn ogystal â darparu'n ddiamheuol ar gyfer cartrefi mewn ardaloedd gwledig.

Hoffai NEA weld Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi amcangyfrifon tlodi tanwydd blynyddol i gefnogi’r gwaith parhaus o asesu’r effaith uniongyrchol y mae ymdrechion dan arweiniad Llywodraeth Cymru yn ei chael ar fynd i’r afael â thlodi tanwydd. Mae amseriad yr adolygiad dwyflynyddol cyntaf yn bwysig iawn gan ei fod yn dod tua diwedd y cyfnod dwy flynedd cyntaf, ac yn achos unrhyw newidiadau a phwyntiau dysgu nad ydynt yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer dechrau'r ddwy flynedd nesaf, ni welwn gynnyrch y rheini hynny am beth amser wedi hynny.

Mae NEA yn credu'n gryf na ddylid ystyried tlodi tanwydd ar wahân: dylai’r gwaith i drechu tlodi tanwydd gael ei alinio ag amcanion hirdymor eraill y Llywodraeth, megis iechyd y cyhoedd lle mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn holl bwysig yng nghyd-destun uniongyrchol Covid-19 a lleihau'r costau i'r GIG sy’n deillio o gartrefi oer. O ran datgarboneiddio, mae angen trawsnewidiad teg a chyfiawn, ac mae angen i aelwydydd incwm isel ac agored i niwed fod yn fuddiolwyr blaenoriaeth.

Mae'r cynlluniau drafft yn cynnwys cynnig i fesur llwyddiant cynlluniau ynni cartref yn y dyfodol ar ffurf gostyngiad mewn oriau cilowat yn hytrach na gwelliannau EPC. Mae gan NEA bryderon y gallai hyn beri risgiau sylweddol i aelwydydd a'u llesiant. Mae cartrefi sy’n dlawd o ran tanwydd yn aml yn tanwresogi eu cartrefi ac yn cyfyngu ar eu defnydd o ynni, felly gallai uchelgais i leihau oriau cilowat annog yr aelwydydd hynny i wneud mwy o hynny. Gellid barnu bod rhai canlyniadau cadarnhaol iawn wedi methu, er enghraifft nid yw gwella effeithlonrwydd ynni cartref rhywun bob amser yn arwain at ostyngiad yn ei ddefnydd o ynni, yn enwedig lle mae wedi bod yn tanwresogi cyn hynny. Bydd y cartref yn dod yn lle mwy cyfforddus i fyw ynddo, ond lle mae deiliad y tŷ eisoes yn gwario swm o arian ar danwresogi, mae'n ddigon posibl y bydd yn parhau i wario'r un swm ond ar wresogi’r cartref yn ddigonol erbyn hyn, ac mae hynny'n llwyddiant go iawn, ond gellid ei gyfrif yn fethiant.

Gofynnodd y Cadeirydd i Ben gadarnhau ei fod yn fodlon bod y prif faterion a amlygwyd ganddo wedi cael sylw yn y llythyrau yr oedd y Grŵp Trawsbleidiol eisoes wedi eu hanfon at Lywodraeth Cymru, ac a oedd unrhyw faterion newydd eu codi yr hoffai i'r grŵp hwn fynd ar eu trywydd yn ysgrifenedig. Cadarnhaodd Ben fod y prif argymhellion wedi cael sylw.

**Sam Hughes, Ymchwilydd Polisi, Cyngor ar Bopeth**

Cytunodd Sam y dylai tri tharged anstatudol Llywodraeth Cymru, a godwyd yn flaenorol gan Ben, fod yn dargedau statudol, sef yr hyn a argymhellwyd gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig. Mae cyfnod y strategaeth yn cynnwys sawl tymor o’r Senedd, ac mae'n bwysig bod ffordd o ddal pob Llywodraeth Cymru i gyfrif am gyflawni'r strategaeth hon trwy'r cyfnod cyfan. Fel rhan o hynny, dylid pennu targedau interim a cherrig milltir pum-mlynyddol a fydd o bosibl yn alinio â chyllidebau carbon statudol.

Mae'n esgeulus nad oes unrhyw dargedau EPC yn y strategaeth o ystyried y cysylltiadau agos rhwng EPCs a thlodi tanwydd. Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn teimlo bod rhwymedigaeth ar lefel leol ar goll, megis yr un sydd gan yr Alban, sef bod rhaid bodloni pob rhan o'r strategaeth ym mhob awdurdod lleol. Hebddi, dichon y caiff y strategaeth ei chyflawni’n dechnegol ond nid o reidrwydd i’r un graddau ledled Cymru. Byddai

rhwymedigaeth ar lefel leol yn fuddiol i bobl mewn ardaloedd gwledig a chartrefi anodd eu gwella gan y byddai'n sicrhau bod ymdrechion a pholisïau Llywodraeth Cymru yn targedu'r ardaloedd hynny gymaint ag unrhyw ran arall o Gymru.

Dywedodd Sam fod gan Gyngor ar Bopeth rai pryderon nad yw 2035 wedi cael ei gyfiawnhau yn dda yn y strategaeth fel targed; nid oes modelu i ddangos pam mae 2035 yn darged heriol na pham mai'r targed iawn ydyw. Maent yn credu pe bai'r gyfradd newid rhwng 2008-2018, a oedd yn rhychwantu'r strategaeth dlodi tanwydd ddiwethaf, yn cael ei hefelychu mae'n debyg y gellid cyrraedd y targedau hyn cyn 2035, felly maent yn ymofyn am esboniad cliriach gan Lywodraeth Cymru ynghylch pam mai 2035 yw'r targed iawn, yn enwedig ar gyfer tlodi tanwydd difrifol a pharhaus.

Ar gyfer y 'Camau Gweithredu Allweddol', mae gan Gyngor ar Bopeth bryderon tebyg nad fydd gweithredu'r Rhaglen Cartrefi Cynnes ddiwygiedig a gwasanaethau cynghori yn digwydd tan fis Ebrill 2023. Mae peidio â diwygio'r rhaglenni hyn yn gadael bwlch sylweddol yn lefel y gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl yng Nghymru ac mae’n caniatáu 12 mlynedd yn unig i gyrraedd y targedau hynny yn hytrach na'r 15 mlynedd yn y modelu yn yr atodiad i’r strategaeth.

Dylai'r amcangyfrifon tlodi tanwydd dwyflynyddol fod yn flynyddol i roi syniad da bob blwyddyn o'r hyn sy'n digwydd yng Nghymru o ganlyniad i'r polisïau. Ar hyn o bryd ni fydd amcangyfrifon tlodi tanwydd tan fis Gorffennaf 2022, sy'n golygu y bydd hi’n ddwy flynedd ar ôl y pandemig cyn ein bod yn deall effeithiau COVID yng Nghymru.

Nid adlewyrchir ECO-Flex yn y strategaeth cymaint ag y dylid. Fel y mae, mae chwe awdurdod lleol yng Nghymru o hyd sydd heb gael unrhyw arian gan ECO-Flex ac mae hynny yn aml am nad yw cynigion yn cael eu gwneud. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod awdurdodau lleol yn cael eu cefnogi i wneud y bidiau hyn.

Dylai fod cynnydd yn y Rhaglen Cartrefi Cynnes o ran nifer y gosodiadau, cyllid a lefel yr ymwybyddiaeth - dim ond 22 y cant o oedolion yng Nghymru sy'n ymwybodol o Nyth ac mae 56 y cant yn anymwybodol o unrhyw gynlluniau effeithlonrwydd ynni. Mae angen gwella cymorth ar gyfer cartrefi anoddach eu gwella - yn 2019/20 mae’n bosibl mai llai na 10 o gartrefi nad ydynt ar y grid nwy a gafodd inswleiddio waliau solet, er bod 65,000 o aelwydydd o'r math hwnnw o adeilad mewn tlodi tanwydd. Argymhellodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig y dylid cael mwy o fesurau i gefnogi'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd difrifol, ac mae'n absennol yn y strategaeth. Bellach mae mwy o gefnogaeth trwy'r Gronfa Cymorth Dewisol i bobl sydd mewn ardaloedd gwledig sy'n defnyddio olew a nwy petrolewm hylifedig (LPG) i gynhesu eu cartrefi, ond mae problem wirioneddol o ran ymwybyddiaeth gan mai dau gartref yn unig a gafodd gymorth atgyweirio boeleri ar gyfer y gaeaf yn 2018-19.

Mae Cyngor ar Bopeth yn credu nad yw mesur oriau cilowat fel targed yn addas i fod yn gynrychiolaeth gywir o lwyddiant o ran gwella eiddo. Mae'n argymell y dylid defnyddio'r targed EPC, neu o leiaf y dylid ei redeg ochr yn ochr fel peilot.

Cynigir ehangu’r diffiniad o aelwydydd sydd 'mewn perygl o fyw mewn tlodi tanwydd' i gynnwys pobl dan 25 oed ar y sail bod amcangyfrifon tlodi tanwydd yn dangos bod tebygolrwydd anghymesur y bydd pobl dan 34 oed mewn tlodi tanwydd. Yn ôl data Cyngor ar Bopeth, o’r bobl ifanc o dan 34 oed sy'n ceisio cyngor ar danwydd, mae mwyafrif helaeth (82 y cant) ohonynt rhwng 25 a 34 oed, felly fe ymddengys nad oes cyfiawnhad dros ehangu i gynnwys pobl dan 25 oed yn unig. Mae Cyngor ar Bopeth wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am ragor o ddata i gyfiawnhau'r safbwynt hwnnw ac, yn niffyg hynny, eu cynnwys ar gyfer pawb dan 34 oed.

**Dr Steffan Evans, Swyddog Polisi ac Ymchwil, Sefydliad Bevan**

Un o'r pethau pwysig am y strategaeth ddrafft yw'r ffaith nad ydym o hyd yn newid i fesur incwm gweddilliol ar gyfer tlodi tanwydd, i fod yn gyson â'r Alban a Lloegr, ac mae Sefydliad Bevan o'r farn ei bod yn hanfodol inni beidio ag ailgyflawni’r camgymeriadau a wnaed rhwng 2008 a 2018, pan welodd y 70 y cant o’r aelwydydd cyfoethocaf ostyngiad o 75 y cant yn nifer y bobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd, ond fe welodd y 10 y cant tlotaf ostyngiad o 25 y cant. Os nad ydym yn cael y ffocws yn iawn, mae risg o wneud y pethau hawdd nad ydynt yn fras yn gwneud fawr o wahaniaeth i dlodi yng Nghymru. Yn gysylltiedig â hynny, mae mwy i'w wneud o ran peidio â chanolbwyntio ar effeithlonrwydd ynni cartref yn unig; dylid canolbwyntio hefyd ar incwm a chost tanwydd.

Cynhaliodd Sefydliad Bevan arolwg gyda YouGov ddechrau mis Rhagfyr. Maint y sampl oedd 1,000 o bobl yng Nghymru. Gwelodd 25 y cant o aelwydydd ostyngiad yn eu hincwm ers dechrau'r pandemig ac roedd dros

40 y cant bellach yn gwario mwy ar ynni nag yr oeddent cyn y pandemig. I rieni sengl, roedd y ffigur dros 50 y cant.

Mae cyfran yr aelwydydd sy'n gorfod torri yn ôl yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar sefyllfa fyw pobl, ac mae'n ymddangos bod cydberthynas yma, sef mai’r bobl a oedd yn waeth eu byd cyn y pandemig yw'r bobl sy'n fwy tebygol o orfod torri'n ôl ar ôl y pandemig.

Ar gyfartaledd mae 14 y cant o bobl yng Nghymru wedi gorfod torri yn ôl, sy'n cyfateb i 190,000 o aelwydydd. Mae 12 y cant o aelwydydd yn disgwyl gorfod gostwng eu biliau ynni rhwng mis Ionawr a mis Mawrth eleni. Yr hyn a amlygir gan hynny yw y gellid gwneud yr aelwydydd hynny mor effeithlon ag y dymunem o ran ynni, ond mae’r sioc i’w hincwm a'r costau byw uwch yn golygu na fyddai o reidrwydd yn newid llawer o ran tlodi tanwydd.

Mae rhai pethau cadarnhaol o ran meini prawf cymhwystra, ond mae Sefydliad Bevan yn pryderu nad ydynt o reidrwydd yn cael eu hystyried yn gyffredinol. Felly, croesewir y cynigion i gynyddu nifer yr aelwydydd sy'n gymwys i gael cymorth o dan y Rhaglen Cartrefi Cynnes, ond un o'r syniadau y mae Sefydliad Bevan wedi bod yn gweithio arnynt yw system fudd-daliadau yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae £400 miliwn yn cael ei wario ar gymorth sy’n dibynnu ar brawf modd i bobl ar incwm isel ac, yn ei gyd-destun, mae hynny’n gyfwerth â’r swm sy’n cael ei wario ar Gredyd Cynhwysol a Lwfans Ceisio Gwaith gyda'i gilydd yng Nghymru, ond nid ydynt yn gysylltiedig. Mae Sefydliad Bevan o'r farn bod angen i hyn, yn y tymor hwy, fod yn rhan o broses ailfeddwl ehangach ynglŷn â sut rydym ni yng Nghymru yn darparu cymorth, trwy Lywodraeth Cymru, i'r teuluoedd â’r incwm isaf.

Codwyd pryder ynghylch y grŵp dan 25 oed. Sef yw hynny, gyda chyfyngiad ar lwfans tai lleol, mae llawer o bobl dan 25 oed sy'n byw mewn llety a rennir mewn tlodi mor affwysol, a hyd yn oed pe baech chi’n gwneud y tai hynny'n fwy ynni effeithlon, byddai’r effaith ar dlodi tanwydd yn bitw am mai incwm yw'r broblem go iawn.

**Adam Jones, Uwch-swyddog Polisi, Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Mae barn Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn fras yn cyd-fynd â'r ymatebion hyd yn hyn.

Mae ICC yn cytuno â chadw'r diffiniad o dlodi tanwydd fel y'i sefydlwyd gyntaf yn Neddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000. Mae ar lefel briodol ac mae ICC yn cefnogi'r newidiadau arfaethedig a nodir yn Ch3 o’r ymgynghoriad, ac mae’n cefnogi'r cynigion i barhau â’r peilot cyflyrau iechyd, gyda’r bwriad o ymgorffori hyn yn y Rhaglenni Cartrefi Cynnes at y dyfodol.

Mae ICC yn cytuno bod cynnwys pobl ifanc yn y diffiniad yn werth chweil a'i bod hefyd yn werth ystyried incwm isel o fewn y diffiniad hwn. Hefyd, fe dynnodd sylw at y ffaith bod llawer o bobl dan 25 oed yn byw yn y sector rhentu preifat, felly byddai'n werth ystyried y math hwnnw o ddeiliadaeth o fewn y diffiniad.

O ran y cwestiwn ynghylch oriau cilowat/EPC, mae ICC yn credu y byddai sefydliadau eraill yn y sefyllfa orau i ymateb i hyn, ond hoffai godi’r pwynt y dylai unrhyw gamau i wella effeithlonrwydd ynni cartrefi ystyried yn ofalus unrhyw effeithiau posibl ar ganlyniadau iechyd, megis effeithiau niweidiol awyru annigonol ar iechyd anadlol.

Tynnodd Adam sylw at waith arall sy'n cael ei wneud gan ICC ar effeithlonrwydd ynni ac iechyd yng Nghymru: *The importance of household energy efficiency for health*. Cynnig papur byr (12-15 tudalen), gan dynnu sylw at y dystiolaeth allweddol, y data, y llenyddiaeth academaidd a mwy; gwneud argymhellion ar gyfer opsiynau ymchwil a pholisi yn y dyfodol wedi eu cyd-destunoli ar gyfer Cymru gyda data Cymru, ond gan edrych ar ddulliau polisi a thystiolaeth yn rhyngwladol. Y nod yw cyhoeddi'r haf hwn.

**Cwestiynau gan y Grŵp**

**Tim Thomas (Cymdeithas Landlordiaid Preswyl):** Un o'r rhesymau y mae awdurdodau lleol yn ei roi i’r Gymdeithas ynghylch pam roedd y niferoedd ar gyfer ECO-Flex yn isel yw nad oes adnoddau i weinyddu a monitro'r rhaglen. A allem ni, fel grŵp trawsbleidiol, argymell i Lywodraeth Cymru i fonitro a gwerthuso gael eu gwneud yn rhanbarthol, neu fod y Llywodraeth ei hun yn ysgwyddo’r gwaith dros Gymru gyfan.

**Sam Hughes (Cyngor ar Bopeth):** Fy nealltwriaeth i yw ei bod yn broblem adnoddau a bod angen staff pwrpasol amser llawn ar gyfer y polisi hwn sy'n rhagchwilio prosiectau posibl a gofalu am yr holl ddogfennaeth ar gyfer y cynnig, ac ati. Ansicr os mai Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo rôl ganolog yw'r ateb, ac mae dadl gref y dylai awdurdodau lleol fod yn gyfrifol am hyn. Ateb posibl yw i Lywodraeth Cymru ariannu swyddogion

ar gyfer awdurdodau lleol a phennu targedau sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddefnyddio hyn a hyn o ECO-Flex.

**Ben Sears (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru):** Rwy'n cytuno â Sam. O drafodaethau gydag Awdurdodau Lleol yn yr haf, awgrymwyd y gallent gyflawni llawer mwy pe bai ganddynt aelod o staff amser llawn i weithio ar ECO Flex. Yn syml, mae'n fater o ddiffyg capasiti i ddelio ag ef, a byddai pennu swyddog yn help mawr.

**Jack Wilkinson-Dix (EST):** Yn yr Alban mae Llywodraeth yr Alban yn ariannu rheolwr cymorth ECO pwrpasol i gynorthwyo awdurdodau lleol gyda cheisiadau, ac mae hynny'n caniatáu i awdurdodau lleol yr Alban i sicrhau mwy o arian ECO. Gallai cael rhywbeth tebyg yng Nghymru fod yn effeithiol.

**Phil Dawson (E.ON):** Yn aml mae camddealltwriaeth ynglŷn â chymhwystra ar gyfer ECO-Flex; mae'n cyfleu cymhwystra i'r cartref i allu cyrchu ECO. Unwaith y bydd aelwyd yn pasio meini prawf yr awdurdod lleol, bydd ganddi fynediad at gyllid ECO. Y syniad yw dal y bobl hynny nad ydynt yn ffitio'n dwt mewn categori ar gyfer Help i Wresogi trwy ECO, ac er mwyn ei wneud mae'n rhaid i awdurdod lleol gyhoeddi datganiad o fwriad; ei reolau i ddweud eich bod yn gymwys i gael mynediad at ECO pan fyddwch yn bodloni'r meini prawf hyn. Un ffordd y mae'n wahanol i Loegr yw bod yn rhaid i awdurdodau lleol, yn eithaf aml yng Nghymru, godi £150 i gyhoeddi datganiad, sef darn o bapur y gellir ei drosglwyddo i'r cwmni ynni rhwymedig er mwyn hawlio'r cyllid.

**Liz Lambert (Cyngor Caerdydd):** Mae'n fater o adnoddau ac mae angen staff amser llawn ar ei gyfer. Er enghraifft, byddai awdurdodau lleol yn caffael i sicrhau bod ganddynt osodwyr o ansawdd da.

**Claire Durkin (NEA):** Mae popeth a glywyd heddiw yn atgyfnerthu tri pheth: Nid yw'r cysylltiad rhwng cartrefi cynnes ac iechyd wedi cael ei godi'n iawn ac nid yw'r uchelgeisiau na'r targed yn adlewyrchu hynny mewn gwirionedd; mae lefel yr uchelgais ar gyfer ein cartrefi cynnes ychydig ar ei hôl hi o'i chymharu â thargedau sero Net; ac mae defnydd Cymru o arloesi a gwyddoniaeth ac ymchwil ac athrylith rhai o'r datblygiadau arloesol sy'n digwydd yng Nghymru, gan gynnwys mewn adeiladau ac ynni, ar goll yn llwyr o'r ymgynghoriad. Fe allai fod yn haws gweithio ar draws adrannau a dylai gweinidogion eraill fod â rhan ynddo oherwydd mae a wnelo â help a'r hinsawdd a phobl hŷn a thlodi ac ynni. Mae'r cyflymder a'r uchelgais yn rhywbeth nad ydym yn eu pwysleisio'n ddigonol. Gallai fod yn ystyriaeth i'r grŵp trawsbleidiol geisio meithrin yr uchelgais a chymhlethdod y cyfan a'r dull adrannol.

**Bethan Edwards (Marie Curie):** Mae canllawiau gan NICE sy'n ymwneud â chartrefi oer a salwch ac mae nifer o argymhellion o safbwynt mwy clinigol gyda'r nod o leddfu'r broblem. Wrth wneud ymchwil, canfuom na lynir rhyw lawer wrth y canllawiau hyn yn Lloegr, felly gwyddom mai dim ond 40 y cant o'r byrddau iechyd a lles sy'n cadw at yr argymhelliad cyntaf hwn. O safbwynt Cymru nid oes llawer ar-lein o'r hyn y gallaf ei weld. A oes gan ICC neu unrhyw un yn y grŵp unrhyw fewnwelediad i'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud o ran annog y defnydd o'r canllawiau hyn ac a yw byrddau iechyd yng Nghymru yn gweithredu'r rhain o gwbl.

**Adam Jones (Iechyd Cyhoeddus Cymru):** Mae canllawiau NICE wedi cael eu mabwysiadu yng Nghymru yn swyddogol ond ni all ddweud sut maent yn cael eu gweithredu. Cytunodd Adam i ymchwilio iddo ymhellach a rhoi gwybod i Bethan.

**Mark Isherwood AS:** Rydym wedi bod yn galw am i ganllawiau NICE gael eu gweithredu yng Nghymru ers blynyddoedd lawer, felly, heb os, byddwn yn parhau i wneud hynny gan obeithio y digwydd hynny yn fuan. Mater arall a nodwyd yn y cyflwyniadau oedd nifer boenus y bobl mewn tai cymdeithasol sy'n wynebu costau ynni uwch; mae hynny'n codi cwestiynau ynglŷn â'u hincwm nhw a hefyd am Safonau Ansawdd Tai Cymru, sydd i fod i gael eu bodloni yn y sector. Felly, efallai yr hoffem ofyn am farn Tai Cymunedol Cymru am hynny a pha gefnogaeth y gallent fod yn ei rhoi, nid yn unig o ran addasiadau corfforol ond o ran mynediad ehangach at fudd-daliadau hefyd.

**Mike Anderson (Ofgem)** a ofynnodd i'r grŵp pa newidiadau yr hoffent eu gweld yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â phartneriaid, fel Ofgem neu'r trydydd sector, llywodraethau, cyflenwyr, rheoleiddwyr, neu'n gyffredinol. A oedd gan unrhyw un farn am sut y gellir cyfleu llais Cymru yn well ar lefel polisi'r DU ar yr agenda hon.

**Ben Saltmarsh (NEA Cymru):** O safbwynt NEA, mae'n bwysig iawn bod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Ofgem ar bolisïau a rhaglenni sy'n effeithio ar aelwydydd Cymru. Mae data ynni domestig arfaethedig Cymru hefyd yn gyfle mawr; po fwyaf y gallwn ei ddadgyfuno o ran Cymru, y mwyaf byddwn yn ei wybod, gan gynnwys sut mae'n cymharu â gwledydd eraill. Byddai hynny'n rhywbeth i'w groesawu.

**5.** **Dŵr Cymru**

- *Samantha James, Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid Domestig*
- *Paula Burnell, Rheolwr Cwsmeriaid Bregus*

Cefnogir 92,000 o gwsmeriaid ar dariff blaengar **HelpU** - ar gyfer aelwydydd ar incwm o lai na £15,000 y flwyddyn. Mae **WaterSure Cymru** yn rhoi cap ar gostau dros y flwyddyn ac yn cefnogi teuluoedd mawr neu bobl sydd â chyflwr sy'n golygu bod rhaid iddynt ddefnyddio llawer mwy o ddŵr. Mae **Dŵr Cymru Uniongyrchol** yn ddidyniad o £25 oddi ar brisiau bob blwyddyn i unrhyw un sy'n talu am ddŵr trwy fudd-daliadau. Mae Dŵr Cymru hefyd yn rhedeg cynllun paru dyledion ar gyfer cwsmeriaid sydd ag ôl-ddyledion sylweddol ac sydd â sgôr credyd penodol; os gallant barhau i dalu taliadau'r flwyddyn gyfredol am 12 mis yna bydd eu hôl-ddyledion yn cael eu dileu.

Mae tîm cymorth arbenigol yn delio â'r achosion cwsmeriaid anoddaf ac yn gweithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael. Maent hefyd yn darparu cefnogaeth ar ffurf cyngor ynni a chynlluniau atgyfeirio ynni. Rydym yn cydnabod nad tariff cymdeithasol yw'r canlyniad cywir i rai cwsmeriaid ac mae eu defnydd o ddŵr mor isel eu bod yn elwa ar gael mesurydd, a dyma lle y gall ein dau sector ddod yn fwy cydgysylltiedig, gan feddwl sut y gallwn ddefnyddio mesuryddion i ddylanwadu ar y defnydd o ddŵr ac ynni. Cymru sydd â'r nifer isaf o fesuryddion dŵr yn y DU. Mae Dŵr Cymru yn rhoi opsiwn dirymu dwy flynedd i gwsmeriaid os ydynt yn gweld bod eu taliadau'n cynyddu'n sylweddol.

Mae gan Dŵr Cymru (DC) gynllun gwasanaethau blaenoriaeth i gefnogi'r bobl sy'n ei chael yn anodd defnyddio ein gwasanaethau, yn fwyaf arbennig darparu dŵr yn dilyn digwyddiad a sut y gallant newid ein cyfathrebu â nhw. Maent hefyd yn cefnogi diogelu o ran pethau fel cynlluniau cyfrinair ac enwebeion ar gyfer cyfrifon.

Mae tariffau cymdeithasol yn cael eu galluogi gan ddeddfwriaeth a chan ganllawiau Llywodraeth Cymru a Defra ac fe'u hariennir gan draws-gymhorthdal gan gwsmeriaid sydd ar dariffau nad ydynt yn rhai cymdeithasol. Mae cwmnïau'n gallu cyfrannu at gost tariffau cymdeithasol ond nid oes gorfodaeth. Rhaid i lefel y traws-gymhorthdal gael ei chefnogi gan gwsmeriaid yn gyffredinol ac mae gan Ddŵr Cymru draws-gymhorthdal o £21 fesul bil, ond mae gan rai cwmnïau yn Lloegr draws-gymhorthdal mor isel â 50c.

Mae DC yn cyfrannu elw gwerth £55 miliwn tuag at dariffau cymdeithasol rhwng 2020-2025. Oherwydd y model perchnogaeth, mae DC yn gallu dargyfeirio arian a fyddai fel arall yn mynd i gyfranddalwyr. Mae DC wedi ymrwymo i gynyddu'r gefnogaeth o 100,000 o gwsmeriaid i 148,000 erbyn 2025. Pan fyddant wedi cynnal ymchwil i raddfa bosibl tlodi dŵr yng Nghymru, mae'n awgrymu y gallai fod cymaint â 400,000 o aelwydydd. Os yw hynny'n wir, byddai'n costio dros £100 miliwn y flwyddyn i gefnogi'r nifer honno o aelwydydd. Mae hynny'n sylweddol fwy na'r hyn y gallwn ei roi i mewn a'r hyn y mae ein cwsmeriaid yn barod i'w gefnogi.

Mae ffyrlo wedi rhoi rhywfaint o ddiogelwch yn ystod argyfwng COVID, ond mae'n debyg ei fod yn celu ffigurau diweithdra ar hyn o bryd. Mae'n dal i olygu llai o incwm i nifer o aelwydydd, ond mae eu hincwm yn dal i fod yn fwy na'r mwyafrif o gynlluniau cymorth. I gwsmeriaid hunangyflogedig, mae'r gostyngiad mewn incwm yn dal i fod yn fwy na'r grantiau y maent wedi'u cael ac i'r rhai sydd newydd ddod yn hunangyflogedig mae'n anodd cael unrhyw gymorth o gwbl. Mae sydd newydd gael eu gwneud yn ddi-waith yn anghyfarwydd â'r broses fudd-daliadau a'r gefnogaeth sydd ar gael ac mae eu costau byw yn fwy na'r Lwfans Ceisio Gwaith, felly yn amlach maent yn defnyddio eu cynilion, os oes ganddynt gynilion, ac mewn rhai achosion mae'r cynilion hyn wedi cael eu dihysbyddu. O ganlyniad i weithio gartref, mae'r defnydd wedi cynyddu ac mae hynny'n rhoi straen ar aelwydydd, ac i'n cwsmeriaid busnes mae ansicrwydd y cyfnod clo a chyfnodau clo mynych yn golygu bod ganddyn nhw bryderon gwirioneddol am eu hincwm.

Y peth cyntaf y mae Dŵr Cymru wedi'i wneud yw edrych ar gynlluniau'r tariffau cymdeithasol, a lofnodwyd gan Ofwat mor ddiweddar â mis Rhagfyr 2019. Mae DC wedi gwneud addasiadau i'n cynllun ac wedi lleihau'r gostyngiad ychydig; yn flaenorol roedd y bil ychydig dros £200 ac rydym wedi ei gynyddu i £250 ac mae hynny'n caniatáu inni gefnogi mwy o bobl, ac rydym yn dwyn rhywfaint o'r cyllid ymlaen o ran olaf ein cyfnod adolygiad rheoliadol, o 2024-2025 i mewn i'r blynyddoedd cynnar hyn fel y gall DC greu rhywfaint o gapasiti ychwanegol, felly rwy'n meddwl y byddant yn gallu cefnogi hyd at 150,000 o aelwydydd dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

Fe wnaethant hefyd gyflwyno gwasanaeth cymorth ar-lein/ffôn pwrpasol newydd ar ddechrau'r cyfnod clo, gan ei bod yn bwysig cynnal y sgwrs gyda'n cwsmeriaid a gweld pa gefnogaeth sydd fwyaf priodol. Mae gan DC

bobl ar wyliau talu ac ar gynlluniau talu llai. Ataliodd DC filio ar gyfer 45,000 o fusnesau a orfodwyd i gau y llynedd, a rhoddwyd stop ar adennill dyledion hwyr.

Drwy weithio gyda Defra a Llywodraeth Cymru, fe greodd DC Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth dros dro a ychwanegodd 350,000 o gwsmeriaid sy'n gwarchod, a chytunwyd ar gytundeb rhannu data newydd gyda Chyngor Casnewydd cyn Storm Bella, felly yn achos methiannau yn y cyflenwad dŵr, mae modd gwybod pwy sy'n gwarchod yn yr ardaloedd dan sylw.

Gwelodd DC gynnydd enfawr yn y defnydd o gynlluniau goddefgarwch rhwng mis Ebrill a mis Mehefin ond ers hynny mae ceisiadau am gefnogaeth wedi dechrau arafu. Oherwydd COVID, gwelsant ddefnydd cymharol isel o'n tariffau cymdeithasol. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n cysylltu â ni yng ngrŵp craidd sydd prin yn cael dau ben llinyn ynghyd, pobl yr effeithiwyd ar eu hincwm ond sy'n dal i ennill mwy na buddion prawf modd, felly rydym yn darparu mwy o wybodaeth am sut y gallant ddefnyddio dŵr mewn ffordd fwy effeithlon. Mae DC o'r farn bod ffyrlo yn amddiffyn ein cwsmeriaid sy'n talu biliau, felly nid ydym wedi gweld cwymp sylweddol o ran casgliadau. Ond, yn y mis diwethaf, maen nhw wedi dechrau gweld bod mwy o'r cwsmeriaid sydd ar dariffau cymdeithasol yn mynd i ddyled, a bod mwy o gwsmeriaid ag ôl-ddyledion yn disgyn ar ei hôl hi ar eu cynlluniau ad-dalu.

Mae trosolwg o'r diwydiant cyfan yn dangos bod cefnogaeth ariannol wedi cynyddu'n aruthrol dros y pum mlynedd diwethaf; oddeutu 150,000 o aelwydydd ydoedd yn 2015, ond oddeutu 900,000 o aelwydydd ydoedd ym mis Mawrth 2020. Ar hyn o bryd, mae adolygiad ledled y diwydiant o gefnogaeth o ran effeithiolrwydd a fforddiadwyedd dros y pum mlynedd diwethaf. Fe'i harweinir gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr (CDD), sef y rheoleiddiwr cwsmeriaid, ac fe'i comisiynwyd gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'n archwilio lefel o gefnogaeth sydd ei hangen a sut y dylid cael ei hariannu. Disgwylir iddo gyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau ym mis Ebrill.

**Cwestiynau**

**Sam Hughes (Cyngor ar Bopeth):** A gafodd y cais am ddata ynghylch gwarchod ei wneud i Lywodraeth Cymru ac a ydych chi'n gwybod a wnaed ceisiadau tebyg gan y cyflenwyr nwy a thrydan, ynteu a yw'n rhywbeth a gawsoch ar eich pennau eich hunain a dim ond chi sydd â mynediad iddynt?

**Paula Burnell (Dŵr Cymru):** Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw un arall yn cyrchu data ynghylch gwarchod; ein menter ni ydoedd, gyda Llywodraeth Cymru, i gael mynediad at y data am wasanaethau blaenoriaeth a'u hychwanegu dros dro at ein data ni ar gyfer cyfnod y pandemig hwn yn unig.

**Neville Rookes (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru):** Nodwyd na ddylid mynd i'r afael â thlodi tanwydd ar ei ben ei hun - gall pob math o dlodi gael effaith a bod yn rhyng-gysylltiedig. Bu digwyddiadau yn ddiweddar lle mae'r rhai sydd mewn tlodi bwyd wedi cael parseli bwyd ond maen nhw wedi methu â choginio dim o'r bwyd am ei bod yn costio gormod i ddefnyddio'r ffwrn neu'r stôf - ac felly'n methu cael budd o fesurau sydd i fod i leddfu tlodi bwyd.

**Crispin Jones (Arbed am Byth):** Mae'n werth nodi i'r grŵp bod Arbed yn gweithio gyda Dŵr Cymru hefyd i geisio sicrhau bod deiliaid tai sydd â phibellau cyflenwi plwm i'w cartrefi yn gallu elwa ar systemau gwresogi newydd o hyd os oes angen help arnynt o ran gwresogi.

## 6. <u>Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol</u>

### a) Adroddiad blynyddol a datganiad ariannol

Dosbarthwyd yr adroddiad blynyddol drafft a'r datganiad ariannol yn flaenorol ac fe'i cymeradwywyd fel darlun teg a chywir.

### b) Ethol y Cadeirydd

Cafodd Mark Isherwood AS ei enwebu gan Sam Hughes (Cyngor ar Bopeth) ac fe'i heiliwyd gan Ben Saltmarsh (NEA Cymru). Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Mae Mark Isherwood AS wedi'i ethol yn gadeirydd.

**c) Ethol yr ysgrifennydd**

Enwebwyd Ben Saltmarsh (NEA Cymru) gan George Jones (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru) ac fe'i heiliwyd gan Tim Thomas (Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid Preswyl). Ni chafwyd unrhyw enwebiadau eraill. Mae Ben Saltmarsh wedi'i ethol yn ysgrifennydd.

Cynigiodd y Cadeirydd adroddiad gwaddol cryno gyda phwyntiau allweddol, a hynny oherwydd, os penderfynir sefydlu'r un grŵp neu grŵp cyfatebol yn y Senedd newydd, bydd ganddo fan cychwyn ar gyfer ei waith. Gellir cylchredeg yr adroddiad ac, os nad oes gwrthwynebiadau, gall ddod yn ddogfen ffurfiol.